# HEDDWCH

Rhifyn 88 > Rhagfyr 2024 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear




## Safwn gyda'n gilydd

## *A OES HEDDWCH?*



### *Yn lle hyn i gyd...*

# Gadewch i ni fawrygu hawliau dynol unwaith eto

Wrth inni grwydro trwy'r tir neb hwnnw rhwng dwy arlywyddiaeth yr UD, mae adfeilion Gaza a Beirut yn dal i fygu; mae'r lladdfa'n dal i dyfu; mae sifiliaid yn dal i gael eu llwgu'n fwriadol. Mae egwyddorion cyfraith ddyngarol ryngwladol wedi'u claddu o dan y rwbel.

### Y llanast moesol

Felly, ffarwel i Joe Biden, y darpar-Ryfelwr Oer erioed. Er gwaethaf 'llinellau coch' aneffeithiol Biden, mae UDA yn dal i ariannu ac arfogi'r rhyfeloedd hil-laddol hyn hyd y diwedd. Bu polisïau Biden-Blinken yn anghydlynol ac yn drychinebus, a chynigiodd Kamala Harri mo'r un polisi amgen ar gyfer Gaza. Mae cadoediad Libanus yn edrych yn fregus iawn. Ac fel ergyd derfynol, dyma Biden yn dwysáu'r rhyfel yn Wcráin, gan achosi i Putin ostwng y trothwy niwclear.

### Dim disgwyliadau

Mae Trump wrth gwrs wedi enwebu eithafwyr peryglus a sawl ynfytyn i swyddi allweddol. Dyw setliad cyfiawn i Gaza, y Lan Orllewinol, Libanus – neu unman, a dweud y gwir – ddim ar ei restr weithredu. Ymddengys bod cyfiawnder unrhyw ganlyniad yn amherthnasol iddo. Mae setlwyr digyfraith Israel eisoes yn cynllunio i gipio'r tir.

Llai o ryfeloedd tramor? Gellid gobeithio felly, ond mae Trump, fel bron pob ffasgydd, yn gelwyddgi cyfresol. Fel aelod o elît goludog, llwydda i ddarbwyllo dioddefwyr cyfalafiaeth eithafol nad y biliwnyddion o'i gwmpas sy'n wir gyfrifol am eu gofid, ond mewnfudwyr, menywod, estroniaid, rhyddfrydwyr a'r chwith 'woke' ...

### Beth ellir ei wneud?

Yr ateb gorau i anobaith yw gweithredu.

Yn gyntaf, rhaid i ni ymgyrchu gyda'n gilydd dros gryfhau cyfraith ryngwladol. Rhaid dwyn hil-laddwyr gerbron y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol.

Yn ail, rhaid atal lledaeniad Trumpyddiaeth a chelwydd i'n dialog wleidyddol ein hunain, yng Nghymru a ledled Ewrop. Rhaid creu gwrthsafiad cadarn, eang, trawsbleidiol, radical i amddiffyn ein Senedd yn yr etholiad nesaf.




## *Yn y rhifyn hwn*

Newyddion o bedwar ban
**Yn y penawdau** 3

Cyn-filwyr y Profion Niwclear: Alan Owen
**72 mlynedd o frad** 4

Gaza a Libanus: Philip Steele
**I ba ddiben? Cyfiawnder** 5

Lakenheath: Angie Zelter
**USAF yn paratoi am Drydydd Rhyfel Byd** 6

PARC Against DARC: Jim Scott
**Na i radar rhyfeloedd gofod** 7

Trawsfynydd: Tim Deere-Jones
**"Tu allan i'r cwmpas" ond dal o gwmpas**
Beth nad yw'n *digwydd yn Nhrawsfynydd?* 8

Newyddion Cymru
**O Fôn i Fynwy** 10

Newyddion Cymru: Carol Jenkins
**Epynt – Mae'r tir yn cofio** 12

Newyddion Cymru: Ali Lochhead
**RR Subs yn dod i Gaerdydd** 13

Newyddion Cymru: Linda Rogers
**SMRs i Ben-y-bont?** 13

Gwyliau Awst 2024: Jill Evans
**Pontypridd...a Pittsburgh** 14

**Hysbysfwrdd, Silff Lyfrau** 15

**CND Cymru**
Cysylltiadau 16




*Wedi blwyddyn o lifogydd trychinebus, dyma **COP 29** yn ymgynnull yn Baku, Azerbaijan, fis Tachwedd. Nododd gweithredwyr hinsawdd yng Nghymru yr achlysur â baneri ar bier Bangor.* *Heather Bolton*

# YN Y PENAWDAU

**"Mae angen atal y gwallgofrwydd cyn ei bod hi'n rhy hwyr... yr unig ffordd i ddileu'r bygythiad niwclear yw dileu arfau niwclear."**

**Antonio Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y CU.**
**Medi 2024**

### Recriwtiaid newydd TPNW

Ar 24 Medi cadarnhaodd Indonesia, Sierra Leone ac Ynysoedd Solomon Gytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW). Bellach mae gan y Cytundeb allweddol hwn 73 o bartïon gwladwriaethol a 25 llofnodydd arall. Y wladwriaeth fwyaf ei phoblogaeth yw Indonesia, â thros 284 miliwn. Tra y cynhelir ymarferion Rhyfel Oer newydd yn yr Indo-Fôr Tawel o dan gytundeb AUKUS, mae'n galonogol bod saith o wledydd De-ddwyrain Asia bellach yn gwrthwynebu arfau niwclear. Cynhelir cyfarfod nesaf y Partïon Gwladwriaethol yn Efrog Newydd, 3-7 Mawrth 2025.

### Gwobr Nobel i *Nihon Hidankyo*

Gwobr amserol! Mae Gwobr Heddwch Nobel 2024 yn mynd i Nihon Hidankyo, o grŵp goroeswyr bom atomig Japan (*Hibakusha*). Maent yn tystio i'r gorffennol ac yn meithrin coffadwriaeth dioddefwyr Hiroshima a Nagasaki, ac ar yr un pryd yn ymgyrchu'n frwd dros ddileu pob arf niwclear.

### Cymeradwyo astudiaeth rhyfel niwclear y CU

Ym mis Tachwedd pleidleisiodd Cynulliad Cyffredinol y CU i sefydlu panel newydd o wyddonwyr i edrych ar bob agwedd ar effaith rhyfel niwclear. Ni chynulliwyd panel o'r fath ers 1989, felly mae'n hollbwysig ac yn amserol ystyried datblygiadau newydd mewn rhagolygon hinsawdd, technoleg a radioleg. Cefnogodd 144 o wledydd y cynnig. Ymunodd y DU â Rwsia a Ffrainc i wrthwynebu, gan ddweud nad oedd dim byd newydd i'w ddysgu!

### Osgoi democratiaeth wrth adnewyddu MDA

Cytundeb Amddiffyn Cydfuddiannol UDA-DU (MDA) yw'r cytundeb sydd ers 1958 wedi ein glynu'n sownd wrth UDA o ran materion niwclear. Ychydig iawn o amser a adawodd y llywodraeth i ASau drafod yr MDA cyn ei bod hi'n bryd ei adnewyddu ar 23 Hydref. Yn fuan ar ôl etholiad San Steffan, cyflwynodd y llywodraeth newydd welliannau a oedd yn cynnwys dileu'r cymal sy'n caniatáu terfynu'r cytundeb. Dengys yr MDA ddiffyg annibyniaeth braw-ataliaeth honedig Prydain, ac mae'n torri amodau'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY).

### Diego Garcia

Mae trosglwyddo sofraniaeth ynysoedd Chagos i Mauritius yn rhannol unioni'r anghyfiawnder yn erbyn yr ynyswyr a alltudiwyd gan Brydain yn 1971. Fodd bynnag mae'n gadael Diego Garcia, prif ganolfan lyngesol gyfrinachol UDA-DU, yn ei lle. Roedd hon yn ddrwg-enwog am fomio Afghanistan a thrawsgludiad honedig carcharorion yn ystod Rhyfel Irac. Rhent yr UD am y cyfleuster oedd gostyngiad yng nghost rhaglen Trident Prydain. Mae'r ynys yn sicr o chwarae rhan bwysig yng nghytundeb AUKUS.



*Dangosodd Channel 4 Britain's Atomic Bomb Scandal, sef hanes brawychus profion niwclear a'u gwaddol ofnadwy. Ni chafodd y gwir ei gydnabod yn swyddogol o hyd. Parhau mae'r ymgyrch dros gyfiawnder.*

*https://www.channel4.com/programmes/britains-atomic-bomb-scandal*

# 72 MLYNEDD O FRAD

**ALAN OWEN yw sylfaenydd LABRATS International, yr ymgyrch a redir o Gaerfyrddin dros dioddefwyr profion niwclear a'u disgynyddion, ledled y byd.**

Mae LABRATS yn brwydro dros wirionedd a chyfiawnder i'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan brofion niwclear. Ers i mi sgrifennu yn *Heddwch* ddiwethaf, buom yn hynod brysur gyda digwyddiadau, cynadleddau ac aduniadau.

## Cymdeithas Genedlaethol y Cyn-filwyr Atomig (NAAV)

Fis Awst aethom i gynhadledd NAAV yn Las Cruces, gan gynnwys ymweliad â Chanolfan Taflegrau White Sands: roeddem i fod i ymweld â safle brofion Trinity, ond yn anffodus, dim ond dinasyddion Americanaidd a gafodd fynediad. Roedd y gynhadledd yn llwyddiant ysgubol, a chlywsom gan rai a ddioddefodd gan ymbelydredd a gariwyd ar y gwynt a phobl frodorol yr effeithiwyd arnynt gan y profion. Cynrychiolai LABRATS y DU, a buom yn trafod ein gwaith.

## Aduniad yr holl Brofion

Ym mis Medi croesawyd 116 o gyn-filwyr a'u teuluoedd ar gyfer aduniad wythnos o hyd yn Weston-Super-Mare. Trefnwyd seremoni fedalau arbennig iawn ar gyfer y cyfranogwyr. Cyflwynodd Maer Weston-Super-Mare a Dirprwy Arglwydd Raglaw Gwlad yr Haf y medalau.

(*www.labrats.international/atr*)

## Ymgyrchu gwleidyddol

Mynychodd cynrychiolwyr LABRATS gynhadledd y Blaid Lafur a chynnal digwyddiad ymylol gyda'r *Daily Mirror*. Galwodd Maer Manceinion, Andy Burnham ar lywodraeth y DU i alw ymchwiliad arbennig blwyddyn o hyd i'r sgandal waed niwclear a'r cofnodion meddygol coll. Dywedodd wrth y llywodraeth, pe na bai ymchwiliad yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2024, y bydd yn mynd â chyn-filwyr i New Scotland Yard a chofnodi y cyflawnwyd trosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.

Rydym wedi cyfarfod â Gweinidog Cyn-filwyr yr Wrthblaid, Andrew Bowie AS, a bu Rebecca Long-Bailey AS mor garedig â chynnal digwyddiad galw-heibio yn Nhai'r Senedd a fynychwyd gan fwy nag 20 o ASau o bob plaid. Cafwyd cyfarfod hefyd â Gweinidog y Cyn-filwyr, Al Carns AS, i drafod tystiolaeth o'r ymgais i gelu'r ffeithiau, a sut i ddod â'r sgandal 72-mlynedd i ben.

## Operation Hurricane

Ar 72fed mlwyddiant y prawf Prydeinig cyntaf (Operation Hurricane – 3ydd Hydref 1952), cynyddodd ein sylfaenydd, Alan Owen a Chyn-filwr Operation Grapple, Brian Unthank, ymwybyddiaeth o'r profion, eu canlyniadau a sut yr effeithiwyd ar y teuluoedd a'r cymunedau. Lansiwyd ymgyrch hefyd i godi arian i dalu am aduniad 2025: ein nod oedd £25,000, ond llwyddasom i godi £46,000. Ymunodd y Capten Terry Hughes, Rebecca Long-Bailey AS, Emma Lewell-Buck AS a Syr John Hayes AS â ni. Cawsom ein cynrychioli gan 45 o'n haelodau a fynychodd orymdaith goffa'r Senotaff fis Tachwedd eleni.

**ALAN OWEN**

# I BA DDIBEN? CYFIAWNDER

Ar 19 Hydref 2024, anerchodd Dr Amer Shoaib rali yng ngwersyll myfyrwyr ym Mangor. Roedd wedi gweithredu fel llawfeddyg mewn llu o barthau rhyfel. Yn ddiweddar bu'n gweithio i Cymorth Meddygol i Balesteina (MAP). Siaradodd yn dawel ac yn ysgytwol am y triniaethau llawfeddygol y bu'n rhaid iddo eu cyflawni ar blant yn Khan Younis. Ni allai'r un o'r holl barthau rhyfel eraill y gwasanaethodd ynddynt gymharu ag erchyllterau Gaza.

## Troseddau yn erbyn dynoldeb

Ar 12 Tachwedd, cyhoeddodd Swyddfa Hawliau Dynol y CU fod bron **70 y cant** o'r marwolaethau yn Gaza y llwyddodd i'w gwirio ei hun yn fenywod a phlant (gan ddefnyddio'r arfau manwl-gywir enwog hynny?). Ar ran y CU, disgrifiodd Volker Türk lefel y lladdfa fel un 'ddigynsail' a oedd yn tanseilio 'egwyddorion sylfaenol cyfraith ryngwladol'.

Dywedir i dros 45,000 o Balestiniaid gael eu lladd yn Gaza. Lladdwyd mwy na 730 yn y Lan Orlleinol tan Feddiant; cafodd mwy na 3,000 bellach eu lladd yn Libanus, lle mae 1.2 miliwn o bobol wedi'u dadleoli. Mae tua 90 y cant o bobl Gaza (1.9 miliwn) wedi cael eu gorfodi o'u cartrefi, ac yn aml yn cael eu troi allan dro ar ôl tro i ganol y tanio, neu i dir diffaith o rwbel anhygyrch.

## Cynddaredd diwahân

Bu cymaint o ryfeloedd ofnadwy yn y cyfnod modern, ond ymddengys hwn yn arbennig o greulon yn ei gynddaredd, a ddwysawyd gan newyn a chlefydau a orfodwyd ar bobl, gan ymosodiadau ar ysbytai, gan ladd a gwahardd gohebwyr, gweithwyr cymorth a phersonél y CU.

Mae gwleidyddion y Gorllewin yn gyfrannog yn yr hil-laddiad hwn, gan danseilio'u tir uchel moesol eu hunain trwy gyflenwi'r cadoffer angheuol. Mae polisïau llywodraeth dde eithafol Netanyahu nid yn unig wedi gwadu dychweliad adref i'r gwystlon a'u teuluoedd, ond hefyd wedi amddifadu eu dinasyddion o unrhyw obaith am ddyfodol heddychlon.

- Mae'n hen bryd ail-gydbwyso strwythurau pŵer o fewn y CU. Dylai adlewyrchu'r drefn fyd-eang gynyddol amlbegynol tra'n cynnal egwyddorion rhyddfrydol ei siarter sefydlu.
- Byddai 'Cynllun Cadfridogion' Israel ar gyfer Israel Fwyaf – sef diarddel neu ddinistrio pobl Palesteina ac atafaelu'r Tiriogaethau dan Feddiant – yn ergyd affwysol i gyfraith ryngwladol.
- Rhaid cydnabod hawliau pobl Palesteina i ymreolaeth. Mae rhai yn cynnig datrysiad un-wladwriaeth gyda hawliau cyfartal i bob dinesydd. Mae eraill yn cynnig datrysiad dwy-wladwriaeth, gyda dwy wlad annibynnol.

**Nid yw Israel yn derbyn y naill na'r llall ar hyn o bryd. Hyd oni ddechreuir mynd i'r afael â'r canlyniadau, bydd y byd, gan gynnwys Israel ei hun, yn parhau i fod mewn perygl o ddinistr ac, o bosib, rhyfel niwclear.**

**PHILIP STEELE**



*Malak Mattar: Dwy o Ferched Gaza yn Breuddwydio am Heddwch (2020)*




*Gweithredwyr o Gymru yn dangos eu cefnogaeth i LAP* *LAP*

# PARATOI AM DRYDYDD RHYFEL BYD

**Lakenheath yn Suffolk yw canolfan awyrlu fwyaf yr yn UD Ewrop. Bu'n gartref i ddim ond unedau USAF a'u personél ers 1948. Mae'n chwarae rôl hanfodol yn cefnogi'r Parth Rheoli Ewropeaidd (USEUCOM) a Pharth Rheoli Affrica (USAFRICOM).**

## Grym dinistriol

Gyda chymaint o wrthdaro arfog yn digwydd, mae Lakenheath yn brysur iawn. Mae'n anfon awyrennau ymladd i ategu'r Israeliaid yn eu hymosodiadau hil-laddol ar Gaza, yn ogystal â chyrchoedd ar Libanus, Syria ac Yemen. Mae'n cyfranogi mewn ymarferion gyda Saudi Arabia ac Israel a llawer o wledydd eraill. Mae'n cynorthwyo ac yn hyrwyddo torri'r gyfraith ddyngarol ryngwladol mewn modd difrifol.

Mae'n defnyddio tanwydd ar gyfradd astronomaidd, nid yn unig gan lygru'r amgylchedd ac ychwanegu at yr allyriadau carbon sy'n chwalu'r hinsawdd ond hefyd gan niweidio clyw pobl leol â lefelau erchyll o lygredd.

## Dychweliad y bomiau

Helpodd protestwyr lleol i gael gwared o arfau niwclear o'r safle yn 2008 â'u gweithredu uniongyrchol cyson dros sawl degawd. Ond fel canolfan weithredol NATO mae'r UD bellach yn dod â bomiau niwclear yn ôl. Gallwn weld yr adeiladau a'r seilwaith ar gyfer storio a pharatoi bomiau niwclear yr UD yn cael eu hadeiladu. Gallwn glywed y bygythiadau a'r gwrth-fygythiadau niwclear gan wladwriaethau sydd ag arfau niwclear ynghyd â datganiadau sy'n gwthio'r byd yn nes ac yn nes at Armagedon niwclear.

## LAP yn gweithredu

Arweiniodd y bygythiadau hyn i'n goroesiad at greu Cynghrair Lakenheath dros Heddwch (LAP) yn 2024. Ar ôl taith gerdded gyntaf a gwersyll heddwch llwyddiannus iawn fis Gorffennaf eleni, bu LAP yn trefnu gwylnosau misol yn Lakenheath ddydd Sadwrn olaf pob mis. Mae mwy na 40 o fudiadau bellach wedi ymuno â LAP a chroesewir amrywiaeth, gan fod angen i ni dyfu a chryfhau.

Rydym nawr yn cynllunio gwersyll rhyngwladol mawr yn Lakenheath o ddydd Llun 14 i ddydd Gwener 25 Ebrill 2025, a fydd yn cynnwys cynhadledd heddwch ryngwladol y gwahoddir arbenigwyr a gweithredwyr o safleoedd milwrol niwclear eraill yr UD iddi ac y gall pobl leol ei mynychu hefyd. Gobeithiwn ddilyn hyn â gwarchae ar y safle. Er mwyn i hyn fod yn llwyddiant, mae angen i chi ddod yma i'n cefnogi fel y medrwch.




*LAP yn cynnal gwylnos a thrafodaeth y tu allan i safle Lakenheath* *LAP*

### CYFRANNWCH, YMWELWCH, YMUNWCH!

Os oes gennych amser, gallech ymuno ag un o'n gweithgorau sy'n trefnu, ymhlith pethau eraill, y gwylnosau, gwersyll, hyfforddi a chefnogaeth gyfreithiol. Da chi, arwyddwch gyda ni yn <u>https://lakenheathallianceforpeace.org.uk/sign-up/</u>

Diolch o galon i CND Cymru am dderbyn cyfraniadau ar ein rhan drwy ein botwm cyfrannau yn <u>https://lakenheathallianceforpeace.org.uk/donate/</u>

Tybed allech chithau ychwanegu at ein cronfa fel hyn? Gan edrych mlaen at eich gweld yn y gwersyll fis Ebrill.

**ANGIE ZELTER**

# DILEU RADAR RHYFEL GOFOD



PARC

*Cefnogwyr PARC, un ac oll! Is-gadeirydd newydd CND Cymru, Beth Winter; Leanne Wood, cyn-arweinydd Plaid Cymru, ac Anthony Slaughter o Blaid Werdd Cymru*

**Mae PARC Against DARC, a lansiwyd â chyfarfod cyhoeddus gorlawn yn Solfach ym mis Mehefin, wedi beirniadu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) yn hallt, gan alw eu hymarferion 'ymgysylltu â'r cyhoedd' ym mis Medi yn 'draed moch llwyr'.**

### Starmer yn cefnogi rhyfela yn y gofod

Fydd neb yn synnu i glywed bod llywodraeth Starmer wedi prysuso i gyhoeddi eu cefnogaeth i gynllun arfaethedig byddin yr UD i osod 27 radar DARC ym Marics Cawdor, sir Benfro. Mewn cyd-ddatganiad i'r wasg gan y llywodraeth a'r WA fis Awst eleni, datganodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn, John Healey ac Ysgrifennydd newydd Cymru, Jo Stephens, eu cefnogaeth i radar DARC. Cyflogodd y WA gwmni cysylltiadau cyhoeddus o Lundain, 'Cascade', i gynnal dau ymarfer 'ymgysylltu â'r cyhoedd' yn sir Benfro fis Medi.

### 'Ffug'Ymarferion PR y WA

Aeth PARC Against DARC ati yn lleol i wrthdystio yn y digwyddiadau hyn, cynnal ei 'Arddangosfa'r Bobl' ei hun, a rhoi arwyddion 'DIM RADAR' i brotestwyr eu gwisgo. Gyda'r cwestiynau pwysedd-uchel y tu mewn a phrotestiadau y tu allan, teimlai gwrthwynebwyr DARC eu bod fwy neu lai'n rhedeg y digwyddiadau! Roedd methiant sylfaenol y digwyddiadau i ufuddhau i 'Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru' yn amlwg hefyd.

Dro ar ôl tro, daeth pobl allan o'r cyfarfodydd PR yn dweud eu bod yn anhrefn llwyr. Roedd gwahanol 'arbenigwyr' yn dweud pethau cwbl wahanol wrthynt, ond ar ôl eu gwthio ar faterion difrifol, yr ymateb bob tro oedd 'allwn ni ddim ateb hynny'. Ailadroddodd nifer o lefarwyr y WA y mantra bod DARC yn dal yn ei 'gyfnod cenhedlu', sy'n codi'r cwestiwn: sut mae ganddyn nhw gymaint o hyder mewn cynnig na wyddan nhw fawr ddim amdano?!

**Gofynnodd un mynychwr lleol i swyddog milwrol a fyddai'n sefyll wrth ymyl un o'r dysglau radar hyn ei hun, a'r ateb oedd, 'Na, faswn i ddim... basai fel rhoi 'mhen i mewn i feicrodon.'**

### Cael ei wared!

Gyda'r WA yn wynebu lefel o wrthwynebiad llawer mwy na'r disgwyl, a DARC yn gorfod bodloni camau cynllunio ac Asesu Effaith Amgylcheddol cymhleth, mae PARC Against DARC yn hyderus bod llawer o ffyrdd y gellir atal y cynnig.

**JIM SCOTT**

## Dilynwch y camau ar wefan PARC!

Ymwelwch â'r wefan yn *www.parcagainstdarc.com* lle gallwch lofnodi'r ddeiseb, anfon e-bost at eich cynrychiolwyr etholedig a'u gorfodi i gynnal ymgysylltiad cyhoeddus priodol. Gyda'ch help chi, gall PARC sicrhau na chaiff DARC, yn union fel y cynnig cyfatebol yn y 1990au, byth weld golau ddydd.



# "TU ALLAN I'R CWMPAS" OND YN DAL O GWMPAS

## *Beth nad yw'n digwydd yn Nhrawsfynydd?*

Caewyd Atomfa Trawsfynydd ym 1991 a chwblhawyd y gwaith o wagio'r tanwydd yn 1995. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS/Magnox), sy'n gyfrifol am lanhau safle Trawsfynydd, gynigion ar gyfer adfer cyfadeilad y Pwll Oeri Tanwydd Treuliedig (SFCP). Agorodd Cyfoeth Naturiol Cymru, rheoleiddiwr Niwclear Cymru, ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion.

### Craciau a gwastraff yn gollwng

Cyn gwagio'r tanwydd o'r safle, roedd yn hysbys ers tro bod yr SFCP wedi bod yn gollwng gwastraff hylifol hynod ymbelydrol i'r tir amgylchynol. Mae llawer yn amau bod hyn o ganlyniad i'r daeargryn pwerus, yn mesur 5.4 ar Raddfa Richter, a ddigwyddodd ar Benrhyn Llŷn gerllaw yn 1984.

Yn 2015, adroddodd yr Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol (IAEA), oherwydd gwendid cymalau adeiladu'r pwll oeri a chraciau yn wal y pwll, "y gwyddys fod llygredd yn y tir o amgylch y pwll ac yn y carthffosydd o dan y pwll ... mae'r tir o amgylch wedi ei lygru i raddau mwy helaeth". Daeth yr IAEA i'r casgliad "na fydd yn bosibl adfer cyflwr yr holl dir llygredig yn llawn, ac na fyddai hynny'n fuddiol" ac ychwanegodd fod "asesiad diogelwch a risg yn cael ei wneud i ganfod cyflwr mynediad priodol ar gyfer gofal a chynnal a chadw sy'n lleihau risgiau gweddilliol cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol."

### Crynodiadau uchel o radioniwclidau

Mae fy nadansoddiad o ddogfennau NRS/Magnox yn cadarnhau y cafwyd crynodiadau uchel iawn o'r nifer bach o radioniwclidau a ddadansoddwyd mewn samplau o'r ddaear y tu allan i'r pyllau: yr allyrrydd gama Cesiwm 137: 3,740,000 Bq/Kg, yr allyrrydd beta Strontiwm 90: 651,000 Bq/Kg, a'r allyrwyr alffa Plwtoniwm (cyfanswm) 4,212 Bq/Kg, ac Americiwm 241: 1,150 Bq/Kg. Mae tri yn grynodiadau cyffelyb i rai a gofnodwyd o amgylch safle trychineb Chernobyl.

Pe cawsai'r samplau eu dadansoddi ar gyfer yr ystod lawn o radioniwclidau a geir mewn SFCPs, byddai crynodiadau o'r rheini wedi bod yn uwch hefyd.

Yn amlwg mae'r lefelau hyn yn arwyddocaol iawn ac ni ddylid eu diystyru (fel y gwnaeth NRS/Magnox), heb drafod ymhellach eu goblygiadau i iechyd y cyhoedd a diogelwch y safle. Datgela dogfennaeth NRS/Magnox ffordd newydd o ddianc rhag cyfrifoldeb am y tir llygredig. O dan ddeddfwriaeth y DU a ddaeth i rym yn 2011, "Nid yw tir llygredig yn cael ei gyfrif fel gwastraff hyd nes neu oni bai y caiff ei ddatgloddio". Gan na chynlluniwyd unrhyw waith cloddio yn Nhrawsfynydd, pennir fod y tir llygredig "Tu Allan i'r Cwmpas", ac ni chaiff ei adfer neu ei selio fel y cynigir y dylid gwneud ar gyfer gweddill seilwaith yr SFCP.

Gellid tybio bod y diwydiant niwclear wedi pwyso am ddeddfwriaeth o'r fath er mwyn lleihau costau a fyddai'n deillio o orfod delio

â'r holl bridd llygredig pe câi ei orfodi i "adfer" deunydd o'r fath o gwmpas pob SFCP yn y DU.

### Llifoedd dŵr daear

Cadarnheir bod "dŵr daear" yn llifo drwy'r safle. Prif yrwyr llif dŵr daear yw graddiant a disgyrchiant, ac mae safle Trawsfynydd yn gorwedd rhwng y tir uchel o'i amgylch a'r tir is, gan gynnwys Llyn Trawsfynydd a'r dalgylch o systemau afonydd sy'n draenio i'r goriwaered i afonydd mwy ac yn y pen draw i aberoedd Afon Dwyryd (Portmeirion) a Glaslyn (Porthmadog) a Bae Ceredigion.

Wrth reswm, bydd dŵr daear yn llifo o'r safle i mewn i Lyn Trawsfynydd, y llyn mwyaf radiolegol lygredig yng Nghymru eisoes, ar ôl 50 mlynedd o ollyngiadau ymbelydrol hylifol a ganiatawyd o'r prif safle.

Mae pob SFCP yn profi crynhoad o laid ymbelydrol sy'n cynnwys darnau micro a nano o danwydd niwclear pelydredig, cladin elfennau tanwydd a gronynnau eraill sy'n belydredig ar ôl eu trochi am gyfnod maith yn y pyllau. Cludir drylliau o'r fath yn hawdd trwy bridd gan lif dŵr daear. Mae'n anochel y caiff ymbelydredd gronynnol a ollyngir gan lif dŵr daear ei wasgaru yn y tymor hir.

Mae CNC yn crybwyll Llyn Trawsfynydd fel ffactor risg sylweddol o ran llifogydd yng nghyd-destun newid hinsawdd/glawio cynyddol/stormydd, gyda'r dalgylchoedd i lawr yr afon mewn mwyaf o berygl gorlifiad trychinebus ac Afon Dwyryd a'i haber, Bae Porthmadog a Bae Ceredigion yn ardaloedd lle ceid effaith eilaidd.

### Tir diffaith

Yng nghyd-destun y baich enfawr o ymbelydredd sydd eisoes yn bresennol yng ngwaddod Llyn Trawsfynydd, ynghyd â beichiau uchel ymbelydredd y dŵr daear o'r 'tir llygredig' NA fydd yn cael ei adfer, mae'r perygl a ragwelir o lifogydd yn fater o bwys mawr.

Mae tir llygredig "Tu Allan i'r Cwmpas" Trawsfynydd na chaiff ei adfer yn ffynhonnell hirdymor o ymbelydredd hylifol a gronynnol lefel-uchel a fydd yn treiddio i ddyfrleoedd cyfagos, gan gynhyrchu dosau uwch o ymbelydredd o waith llaw dyn i amgylcheddau lleol a rhanbarthol ac i aelodau o'r cyhoedd trwy gyffyrddiad, anadliad ac amlynciad am y dyfodol rhagweladwy.

Mae gwyrdroi deddfwriaeth i ddatgan bod sylwedd yn anymbelydrol, er gwaetha'r ffaith y cydnabuwyd ei fod yn ymbelydrol, yn "ffuglen gyfreithiol" gyfleus. Nid yw hyn yn gwneud y datganiad yn foesol gywir, nac, o dan y model Dim Trothwy Llinol (LNT) o ymateb i ddos o ymbelydredd, yn gwneud y canlyniad yn un heb niwed posib i iechyd.

**TIM DEERE-JONES**



*Trawsfynydd*

# O FÔN I FYNWY
## MONA TO MONMOUTH





*Pabïau gwyn heddwch, Aberystwyth*

### CCB 2024 CND Cymru

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni ar 2 Tachwedd yn Hwlffordd, ac ymunodd eraill o bell ar Zoom. Cafwyd adroddiadau gan swyddogion ac ymgyrchwyr a diolchwyd am holl waith caled ein haelodau ledled Cymru. Canmolwyd Jill Gough am ei hymgyrchu rhagorol ar Facebook. Cafodd Beth Winter, cyn-AS Llafur Cwm Cynon, ei hethol a'i chroesawu fel Is-Gadeirydd newydd. Cafwyd cyflwyniadau gan Sam Bannon ar ymgyrchoedd Heddwch ar Waith, ac ymgyrchwyr PARC, Roy Jones a Jim Scott.

### Cyfarfod cytûn ym Merthyr

'Adeiladu mudiad ar gyfer pobl, heddwch a'r blaned, NID elw' oedd uchelgais clodwiw y cyfarfod hwn yn Theatr Soar ym **Merthyr Tudful** ar 26 Hydref, a fynychwyd gan aelodau CND Cymru. Roedd y pynciau a godwyd yn cynnwys adfywio cymunedol yn seiliedig ar annibyniaeth trwy fentrau cydweithredol, cynlluniau ynni cymunedol a dulliau eraill; hefyd ymgyrch PARC, Palesteina a blaenoriaethau ymgyrchu. Fe'i trefnwyd gan Gynghrair Chwith Radical Cymru. Ymhlith y siaradwyr roedd cyn-AS Cwm Cynon, Beth Winter (cyn-Lafur), Leanne Wood (cyn-arweinydd Plaid Cymru), Anthony Slaughter (arweinydd Plaid Werdd Cymru) ac Andrew Draper (NUJ/IFJ).

### Ar lawr gwlad

Cyfarfu grŵp CND Cymru **Abertawe** ar 21 Tachwedd yn oriel Elysium i drafod dychweliad arfau niwclear yr UD i'r DU gydag Angie Zelter, yr ymgyrch yn erbyn dysglau radar gofod yn Sir Benfro, a'r cynnig newydd ar gyfer SMRs (adweithyddion niwclear bach) ym **Mhen-y-bont ar Ogwr**.

### Hyfforddiant Babcock yn RAF Fali

Mae'r militareiddio ar addysg bellach yng Nghymru yn parhau ar garlam gyda chytundeb newydd rhwng grŵp colegau gogledd Cymru, Llandrillo Menai, a grŵp Babcock International i ehangu rhaglen hyfforddi prentisiaid bresennol RAF Fali ar **Ynys Môn**. Mae eu 'Llwybrau Galwedigaethol Diwydiannol' yn cynnwys cynnal a chadw arfau, cynnal a chadw systemau electronig awyrennau, a chynnal a chadw eu mecanwaith.

### Herio cynllun Glasgoed

Ymosodwyd ar gynnig i godi adeilad cyfosod cadoffer newydd a chloddiau gwrth-ffrwydrad ar safle BAE Systems (cyn-Ffatri Ordnans Frenhinol Glasgoed, rhwng Brynbuga a Phont-y-pŵl) gan brotestwyr oherwydd perygl i'r cyhoedd a bod yn gyfrannog yn y rhyfel ar Gaza. Cychwynnwyd ar y gwaith heb ganiatâd cynllunio ac fe fu ffrwydrad anfwriadol yno fis Ebrill diwethaf. Fodd bynnag, rhoddwyd y caniatâd yn derfynol mewn cyfarfod o Gyngor Sir Fynwy ar 5 Tachwedd, o bob dydd!

### Gweithredu uniongyrchol yn gweithio

Ddiwedd mis Hydref daeth yn amlwg fod Banc Barclays wedi torri ei gysylltiadau ariannol gyda chwmni arfau Israel, Elbit Systems. Cafodd cyflenwyr cydrannau o Gymru ar gyfer rhaglen dronau Elbit, fel Solvay (Syensqo bellach) yn **Wrecsam**, eu targedu ers tro gan Palestine Action. Mae protestwyr eraill wedi targedu **Aberporth** a menter Elbit arall yn **RAF Fali**. Fodd bynnag, mae gan Barclays fuddiannau mewn cwmnïau arfau eraill, fel General Dynamics, BAE Systems a Raytheon o hyd.








# Protestiadau rhyfel Gaza a Libanus

Ni fu pall ar weithgareddau wrth i arswyd rhyfel Gaza ledaenu ar draws y Dwyrain Canol. Bu pobl yn gweithredu ym mhob cwr o Gymru, o **Langollen** a **Wrecsam** i **Fachynlleth** ac **Aberteifi**, holl brifysgolion Cymru, Eisteddfod Genedlaethol **Pontypridd**, a'r Senedd yng **Nghaerdydd**. Nid **Caernarfon** yw'r unig dref sydd wedi cynnal gwylnos bob wythnos ers dechrau'r rhyfel. Bu digwyddiadau codi arian ar gyfer cymorth dyngarol, protestiadau heddychlon, ralïau a gorymdeithiau gwleidyddol, gwasanaethau crefyddol, ffilmiau, cyngherddau, a darlleniadau barddoniaeth.

Ar 16 Tachwedd bu gorymdaith a rali fawr iawn yn **Llandudno**, lle'r oedd Keir Starmer yn annerch Cynhadledd Llafur Cymru yn Venue Cymru.

### Teyrnged amserol Theatr Cymru

Mae'n anodd credu yr aeth dros 20 mlynedd heibio ers marwolaeth drasig y gweithredydd di-drais ifanc o Americanes, Rachel Corrie, a laddwyd yn Gaza gan yr IDF. Fis Hydref aeth Theatr Cymru (ar y cyd ag Ashtar Theatre o Ramallah, Palesteina) â fersiwn Gymraeg o'r ddrama, *My Name is Rachel Corrie* (2005), ar daith. Fe'i cyfieithwyd gan Menna Elfyn. Hannah Daniel oedd Rachel yn *Fy enw i yw Rachel Corrie*, a gyfarwyddwyd gan Steffan Donnelly. Yn brofiad teimladwy, fe'i perfformiwyd yng **Nghaernarfon**, **Caerdydd** a **Chaerfyrddin**.



*Cofio Rachel Corrie*
*Theatr Cymru*

### Canu Mawr yng Nghaerdydd

*Meddai Wendy Lewis, Côr Cochion:*

Yn yr amserau peryglus hyn, gyda'r bygythiad o wrthdaro sy'n ehangu ar y gorwel, profiad gwirioneddol fywiol oedd bod yn rhan o'r Canu Mawr dros Balesteina ar 16 Tachwedd. Daeth Charlotte Church, Côr Cochion, côr Cynghrair Bryste-Palesteina, Bristol Red Notes, a Songs of Freedom ynghyd o Gymru a Lloegr i godi llais. Llenwodd 'llais angel' Charlotte y Tabernacl hardd â 'You'll Never Walk Alone'.

Gadawodd y siaradwr gwadd, Nazim Qumsiyeh, Palestiniad Cristnogol o Fethlehem, y gynulleidfa yn ei dagrau â'i sgwrs ingol, ond optimistaidd am effaith amgylcheddol y rhyfel ar Gaza a'i brosiectau bioamrywiaeth gyda phlant yng nghanol rhyfel, yr achos y cynhaliwyd y cyngerdd i godi arian ar ei gyfer.

Canodd Côr Cochion, sydd wedi ymgyrchu yng Nghaerdydd dros heddwch â chyfiawnder yn y rhanbarth ers eu taith i Balesteina ac Israel ym 1994, ganeuon o Gymru, o gyfnod gwrth-apartheid De Affrica, a 'We Shall Overcome' o'r ymgyrch dros hawliau sifil. Gwnaeth y gynulleidfa gyfan i'r capel atseinio i 'Yma o Hyd' a 'Hen Wlad fy Nhadau'.

Crogai baneri o gwmpas y balconi â'r negeseuon 'Vigil for Peace', 'Stop the Bombing', 'Let Gaza Live'. Gobeithio y cyrhaedda'r neges uchel a chroyw a anfonwyd o'r Tabernacl y rhai sydd mewn grym.


*Y Canu Mawr, Y Tabernacl*
*Côr Cochion Caerdydd*

# EPYNT: MAE'R TIR YN COFIO

Diwrnod Heddwch Rhyngwladol ac ar y diwrnod cawodlyd hwn, yr 21ain o Fedi, daeth rhyw ddeugain o bobl ynghyd ger Canolfan Ymwelwyr **Epynt** i ddangos eu cefnogaeth a'u hawydd am heddwch, ac i alw ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i ddychwelyd y tir i bobl Cymru.

Eleni, penderfynodd Cymdeithas y Cymod (*www.cymdeithasycymod.cymru*) ddefnyddio'r diwrnod i gychwyn cyfnod o godi ymwybyddiaeth am hanes yr Epynt a'r ffaith fod y fyddin yn dal yno 84 mlynedd yn ddiweddarach.

Cymdeithas Gymraeg wledig ddiarffordd oedd ar Fynydd Epynt cyn 1940. Ond, yn nyddiau cynnar yr Ail Ryfel Byd, gwelodd y Weinyddiaeth Amddiffyn bod yr Epynt yn ardal addas iawn ar gyfer hyfforddiant milwrol, gan gynnwys tanio bwledi byw. Gorfodwyd pobl i adael eu cartrefi a'r bywyd yr oeddynt yn gyfarwydd ag ef er mwyn troi'r lle yn faes ymarfer rhyfel. Roedd hyn yn sioc llwyr i'r trigolion – y mwyafrif ohonynt â'u gwreiddiau yn ddwfn yn yr ardal. Er i sawl un feddwl mai rhywbeth dros dro oedd hyn, yn fuan fe sylweddolwyd nad dyna'r sefyllfa ac, o fewn chwe mis i glywed y newydd gyntaf, roedd pobl yn gadael eu cartrefi am byth. Adnabyddir y cyfnod hwn fel y Troi Allan.

Dymchelwyd nifer o'r tai ac adeiladwyd strydoedd i gael ymarfer rhyfela. Plannwyd clystyrau o goed hwnt ac



*Epynt, mis Medi*

yma, coed sy'n edrych allan o le yn llwyr ar y bryniau.

Cafwyd anerchiad grymus gan Robat Idris, Cadeirydd Cymdeithas y Cymod a esboniodd: *"Roedd yn briodol iawn i ni yng Nghymdeithas y Cymod fynd i'r Epynt ar Ddiwrnod Heddwch Rhyngwladol. Mae'r Epynt yn ardal eang o dir a fu'n eiddo i'r Cymry ers cyn côf. Ym 1940 trowyd dros 219 o bobl a phlant o 54 o aelwydydd gan y Llywodraeth er mwyn creu maes i ymarfer rhyfela. Erys y mynydd-dir hwn yn nwylo'r Weinyddiaeth Amddiffyn i'r un pwrpas hyd y dydd heddiw."*




*Epynt, mis Medi*

Rhoddwyd ychydig o hanes y Troi Allan gan Marika Fusser. Darllenwyd dwy gerdd (y ddwy wedi eu hysgrifennu adeg wythdeg mlwyddiant y Troi Allan) – un gan Mererid Hopwood yn gofyn am gael y tir yn ôl a'r llall gan Ifor ap Glyn yn atgoffa ni o enwau'r ffermydd a'r tyddynnod. Cafwyd rhai caneuon gan Gôr Gobaith – côr heddwch o ardal Aberystwyth – hefyd.

Bydd cyfres o ddigwyddiadau gan Gymdeithas y Cymod a'r rhwydaith Heddwch ar Waith rhwng hyd at 30 Mehefin 2025, sef 85 mlwyddiant y Troi Allan.

*Addaswyd o erthygl wreiddiol gan*

**CAROL JENKINS**

>>> ***Am fanylion pellach am yr ymgyrch hon, ebostiwch*** *epynt2025@gmail.com*

# R-R SUBS YN DOD I GAERDYDD



*Argraff o'r llong ymosod danfor arfaethedig, SSN AUKUS*

Mae Rolls-Royce Submarines yn agor swyddfeydd newydd yn Llaneirwg, Caerdydd fis Rhagfyr 2024, yn ogystal ag yn Glasgow, i ateb y twf yn y galw gan y Llynges Frenhinol, ac yng ngoleuni cyhoeddiad diweddar AUKUS. Telir am y swyddfeydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (WA).

Cadarnhawyd y byddai Rolls-Royce Submarines yn darparu'r holl gyfarpar adweithyddion niwclear a fydd yn pweru llongau tanfor ymosod newydd fel rhan o'r cytundeb tairochrog rhwng Awstralia, y DU a'r UD (AUKUS).

### Militareiddio'r economi

Mae DARC, datblygiadau ynni niwclear sifil, a thwf busnesau bach sy'n cyflenwi'r diwydiant amddiffyn ledled Cymru oll yn gysylltiedig, ac mae angen i ni eu herio i gyd.

Yng ngeiriau cyn-Ysgrifennydd Cymru, David TC Davies, 'Mae Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar wneud popeth o fewn ein gallu i ysgogi ffyniant a thwf a gwneud yn siŵr bod economi Cymru yn gymwys i'r 21ain ganrif.' Economi yn seiliedig ar adeiladu gallu milwrol, sydd ond yn porthi'r sicrwydd o wrthdaro a rhyfel yn y pen draw.

Dywedodd y WA fod hwn yn gyfnod o dwf digynsail. Does byth problem gyda dod o hyd i gyllidebau ar gyfer amddiffyn ac y maent yn cymeradwyo'r ffaith y caiff dros 100 o swyddi eu creu yn y naill ddinas a'r llall. Ond pam nad creu swyddi ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, a swyddi a seilwaith cymdeithasol gynhyrchiol?

Yn gysylltiedig â hyn mae gwaith Rolls Royce yn ysgolion Cymru, yn datblygu cwricwlwm a sgiliau STEM, sy'n rhannol seiliedig ar ddatblygu technolegau a sgiliau milwrol a niwclear ar gyfer y diwydiannau hynny – gan gychwyn mewn ysgolion cynradd!

**ALI LOCHHEAD**

>>> ***Mae Cyngor Caerdydd wedi datgan ei fod yn Awdurdod Lleol Di-niwclear felly mai angen ei herio beunydd!***

# SMRs I BEN-Y-BONT?

Adroddwyd ar 16 Hydref bod Last Energy UK, is-gwmni i gwmni o'r UD, yn buddsoddi £300 miliwn mewn cynnig ar gyfer llain 6-hectar ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Tan 1977, dyna oedd safle gorsaf bŵer glo Llynfi. Mae bellach yn cael ei hyrwyddo fel safle ar gyfer 4 adweithydd niwclear modiwlaidd 'micro', i bweru busnesau lleol.

Mae rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer a'i drwyddedu yn nwylo llywodraeth Cymru. Ymddengys y bwriedir Pen-y-bont fel arbrawf cyn cynllun ar gyfer 80 o adweithyddion ar draws Ewrop, a 10,000 ledled y byd! Dyna natur economeg SMRs.

### Yn y byd go iawn

Mae problemau gwastraff, diogelwch, dulliau cynhyrchu, sicrwydd a chost yn dal heb eu datrys. Roedd adroddiad diwethaf Pwyllgor Dethol Materion Cymreig San Steffan ar Bŵer Niwclear yn diystyru Adweithyddion Modiwlaidd Bach (SMRs). Does yna'r un ar waith eto, er gwaethaf blynyddoedd o ymchwil a'r cannoedd o filiynau o bunnau a daflwyd at wahanol fodelau. Gwnaeth y cwmni cyntaf â model trwyddedig, Nu-Scale, golledion syfrdanol. Ar 30 Hydref 2024 fe ffeiliodd Ultra Safe Nuclear Coporation (USNC) yr UD am fethdaliad. Mae'r diwydiant yn daer ac mae'r broliant yn frwd – ond ymddengys mai bach iawn yw'r tebygolrwydd y caiff y prosiect hwn rwydd hynt.

**LINDA ROGERS**

# ADRODDIADAU O BONTYPRIDD...

**Eisteddfod Rhondda Cynon Taf**

Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni dipyn yn wahanol ond cytunodd pawb ei bod yn llwyddiant ysgubol.

Roedd y Babell Heddwch braidd yn wahanol hefyd. Rydyn ni fel arfer yn rhannu'r babell rhwng mudiadau heddwch ond eleni roedd yn llwyfan i nifer fwy o ymgyrchoedd. Gan fod lle ar y maes yn gyfyngedig, fe ddefnyddiwyd y babell gan Ymgyrch Cefnogi Palesteina, Partneriaeth Hawlio Heddwch, PAWB, PARC yn erbyn DARC a'r Crynwyr yn ogystal ag CND Cymru a Chymdeithas y Cymod. Fe wnaeth Academi Heddwch Cymru dalu am y babell.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus iawn yn y babell, yn cynnwys rali i gefnogi Palesteina, cyfarfod cofio Hiroshima a sesiynau am Ddeiseb Menywod Cymru 1923/24, Ynni Niwclear, Addysg Heddwch a radar Sir Benfro.



*Llysgenhadon Heddwch Ifanc ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol*

Ar y dydd Mercher, fe ddaeth pobl ynghyd yn y Babell Heddwch o dan arweinyddiaeth y cynghorydd Elin Hywel ar gyfer sgwrs agored ar sut i wrthsefyll y dde eithafol.

Gyda nifer o gyfarfodydd proffil-uchel ym Mhabell y Cymdeithasau a'r Babell Lên, yn ogystal a chyfarfod ar y bandstand i gofio dioddefwyr pob rhyfel, roedd heddwch yn thema amlwg yn yr ŵyl. Rhoddwyd pwyslais ar heddwch gan yr Archdderwydd, Mererid Hopwood, yn ei hareithiau hi o'r prif lwyfan.

Gan fod y Babell Heddwch eleni yn ffocws i gymaint o fudiadau, gwelwn y cam cyntaf mewn adeiladu ffrynt unedig yng Nghymru i weithio dros heddwch a chyfiawnder. Mae rhaid i CND Cymru fod yn barod i gefnogi'r cydweithio yma. Gallen ni edrych ar Eisteddfod Wrecsam 2025 fel cyfle i'w dyfu a datblygu.

# ... A PITTSBURGH

## Gŵyl Cymru Gogledd America

Anrhydedd o'r mwyaf oedd mynd i Pittsburgh ar rhan Partneriaeth Hawlio Heddwch ac Heddwch Nain/Mam-gu i dderbyn Medal Treftadaeth Cymru Gogledd America 2024.


Gwobrwywyd y Bartneriaeth am y gwaith o ddatgelu a hyrwyddo hanes menywod Cymru 1923/24 a gyflwynodd deiseb heddwch i fenywod yr Unol Daleithiau, yn cynnwys bron 400,000 o enwau a gasglwyd o ddrws i ddrws. Eu hamcan oedd byd di-ryfel.


Roedd y ddeiseb wedi'i chadw yn y Smithsonian yn Washington gyda'i chist dderw tan 2023 pan ddaeth yn ôl i Gymru fel rhodd y Smithsonian i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.


Cafodd y ddeiseb sylw uchel yn yr ŵyl arwyddocaol hon. Am y tro cyntaf, fe glywon ni am fywyd Elined Prys, un o'r menywod a aeth â'r ddeiseb i'r Unol Daleithiau. Roedd yn bleser mawr i gwrdd â'i hwyres, Michelle, a fu'n rhannu atgofion am ei nain.


Mae dathlu canmlwyddiant y weithred unigryw hon wedi ail-gynnau cyfeillgarwch rhwng menywod ein dwy genedl ac mae'r fedal yn adlewyrchu hynny.

**JILL EVANS**






**I'w hadolygu yn rhifyn nesaf Heddwch**

## YR HYSBYSFWRDD Da chi, hoffem glywed gennych!

Anfonwch e-bost, barn, adroddiad, awgrymiadau, manylion digwyddiadau i **phil_steele@btinternet.com** gyda 'H89 ed' yn y blwch pwnc. Cadwch o'n fyr a rhowch eich cyfeiriad neu gyswllt e-bost!

USAF
**LAKENHEATH**
Norfolk, Lloegr
Gwersyll rhyngwladol
Dydd Llun 14 tan ddydd Gwener 25 Ebrill 2025
L.A.P.
CYNGHRAIR LAKENHEATH DROS HEDDWCH



https://lakenheathallianceforpeace.org.uk/sign-up/

- Mae *Heddwch ar Waith* yn ceisio creu rôl **Llysgennad Heddwch** o fewn cymaint o **awdurdodau lleol** ledled Cymru â phosib. Hyd yn hyn, buom yn gofyn i'n cefnogwyr nodi cynghorwyr yn eu hardaloedd eu hunain, a fyddai'n fodlon ein helpu i gyflawni hyn. O'r fan honno, rydym yn eu cefnogi wrth iddynt gyflwyno cynnig i'r cyngor.

Yn y pen draw, hoffem ddatblygu rhwydwaith gweithredol o Lysgenhadon Heddwch ledled y wlad, a all integreiddio adeiladu heddwch i mewn i gynigion polisi, yn ogystal â bod yn glust gyfeillgar i'r Mudiad Heddwch o fewn llywodraeth leol. Cysylltwch, da chi!

Sam Bannon

***heddwcharwaith@gmail.com***

- Datgelodd ymholiadau Rhyddid Gwybodaeth y gadawyd peth wmbreth o wastraff ymbelydrol o awyrennau sgrap mewn 250+ o feysydd awyr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, datgelwyd hefyd nad oes gan Lywodraeth Cymru na Llywodraeth San Steffan gofnodion o ble y digwyddodd hyn. Dwi'n ymchwilio i sut y cafwyd gwared o falurion ymbelydrol (deialau goleuol awyrennau/switsys ac ati) ym meysydd awyr Ail Ryfel Byd Cymru. Os oes gan unrhyw un wybodaeth berthnasol, da chi, cysylltwch â fi!

Tim Deere-Jones

***timdeerejones@outlook.com***

**6 Awst 2025**

Y flwyddyn nesaf fydd 80ain mlwyddiant bomio Hiroshima a Nagasaki. Wrth i densiynau niwclear byd-eang gynyddu eto, ewch ati nawr, da chi, i gynllunio i goffáu'r achlysur yn lleol ac yn genedlaethol.

***BYTH ETO!***

# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.**

| | |
|---|---|
| **gwefan** | *www.cndcymru.org* |
| **e-bost** | *heddwch@cndcymru.org* |
| **instagram** | *@cndcymru* |
| **gweplyfr** | *www.facebook.com/cndcymru/* |
| **X (Trydar)** | *@cndcymru* |
| **Bluesky** | *@cndcymru* |

## YMUNWCH Â NI NAWR!

https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/

O dan 25? Hawdd! Gallwch ymuno â ni yn rhad ac am ddim ar-lein a lawrlwytho Heddwch o'r wefan.

## CYSYLLTIADAU

**Cadeirydd**
Mabon ap Gwynfor *mabonapgwynfor@gmail.com*

**Is-gadeiryddion**
Jill Evans *jillrhondda@yahoo.co.uk*
Brian Jones *brian.jones@phonecoop.coop*
Beth Winter

**Trysorydd/Aelodaeth**
Michael Freeman *aelodaeth@cndcymru.org*
9 Bryn Briallu, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE

**Ysgrifennydd Cenedlaethol** Y Wasg/ Cyfathrebu
Dylan Lewis-Rowlands *heddwch@cndcymru.org*

**Pwyllgor Gwaith**
Peter Adamson,
Sam Bannon *Heddwch ar Waith*,
Jill Gough *Cyfryngau Cymdeithasol*,
Awel Irene,
Alison Lochhead,
Jon Plumpton,
Linda Rogers,
Bethan Siân *Academi Heddwch*,
Philip Steele *Golygydd Heddwch*

**Cysylltiadau**
Robat Idris *Cymdeithas y Cymod*
Dylan Morgan *PAWB-Cadno*

**Cynrychiolwyr, Cyngor CND Prydain**
Dylan Lewis-Rowlands
Linda Rogers

## HEDDWCH

**yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru). Gellir ei ddarllen ar-lein hefyd, ynghyd ag ôl-rifynnau yn *www.cndcymru.org***

**Golygydd:** Philip Steele
*phil_steele@btinternet.com*
**Cyfieithydd:** Siân Edwards
*siandefynnog@hotmail.co.uk*
**Dylunydd:** Tom Pollock
*tom@excellent-design.co.uk*
Argraffwyd gan **Serol Print**, Castell-nedd 2024
Gwaith celf
t2 Dai Owen, Jill Gough;
t10 Ruth Jên Evans

Nid yw cynnwys *Heddwch* o angenrhaid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad, llythyr neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Bydd rhifyn nesaf *HEDDWCH* yn ymddangos ym mis Ebrill 2025.




*Gorymdaith yn Llandudno , Mis Tachwedd*